Grŵp Gweithredu Cymunedol Peilonau Llanymddyfri 13 Chwefror 2024

Y Llythyr a'r drwydded ddiweddaraf gan Bruton Knowles:

Yn dilyn ymlaen o'n neges destun a'n negeseuon e-bost i dirfeddianwyr yr wythnos diwethaf, rydym wedi adolygu'n fanwl y llythyr a'r drwydded a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf gan Bruton Knowles ar ran GreenGen a anfonwyd at rai tirfeddianwyr.

Fel yr ydym wedi ei wneud yn glir yn y gorffennol, mae gennym lawer o bryderon am y drwydded – ein barn ni yw **nad yw'n amddiffyn tirfeddianwyr yn iawn** ac **y gallai eu gwneud yn agored i atebolrwydd a chostau posibl.**

**Ni fydd tirfeddianwyr yng Ngrŵp Llywio Llanymddyfri yn llofnodi'r drwydded, yn caniatáu mynediad i'w tir nac yn dychwelyd yr holiadur sydd wedi'i amgáu gyda llythyr Bruton Knowles.**

Er na allwn roi cyngor i dirfeddianwyr, byddem yn eich cynghori'n gryf os oes unrhyw un yn ystyried llofnodi'r drwydded, ei fod yn siarad â chyfreithiwr gan fod y drwydded yn ddogfen gyfreithiol dechnegol sy'n rhoi hawliau mynediad a hawl i ddefnyddio eich tir.

Cofiwch y bydd llofnodi'r drwydded yn galluogi i'ch tir gael ei farnu pa un a yw'n **addas ar gyfer peilonau**, ac yn gyfnewid **dim ond £250 fel o'r blaen** sy'n daladwy i chi ymlaen llaw wrth lofnodi'r drwydded – nid y ffigur o £500 a awgrymir yn y llythyr eglurhaol gan Bruton Knowles.

Mae ffermwyr a thirfeddianwyr yr effeithir arnynt gan gynllun Tywi Wysg yn Sir Gaerfyrddin a chynlluniau tebyg GreenGen, Efyrnwy Frankton yn Sir Drefaldwyn a chynllun Tywi Teifi yn dweud **na i drwyddedau** a **na i roi mynediad i'w tir** a **na i beilonau.**

Mae cwmni Bruton Knowles wedi dweud os na all gael mynediad gwirfoddol i'ch tir y bydd yn rhaid i GreenGen ystyried ei opsiynau, gan gynnwys defnyddio pwerau statudol o dan Adran 172 o'r Ddeddf Tai a Chynllunio. Cysyllton ni y llynedd i ofyn am esboniad ynglŷn â sut y mae'n credu y gall GreenGen ddefnyddio'r pwerau hynny heb drwydded Ofgem. Nid yw wedi ymateb i ni eto.

Mae Bruton Knowles yn nodi y byddai'n well gan GreenGen beidio â cheisio defnyddio pwerau statudol i gael mynediad, a gallwn ddeall pam. Gallai fod yn drychineb o ran cysylltiadau cyhoeddus, costio llawer iawn iddynt, achosi oedi sylweddol ac mae'r canlyniad terfynol i GreenGen wrth geisio defnyddio'r pwerau hynny ymhell o fod yn sicr.
Os bydd unrhyw newid mewn amgylchiadau neu unrhyw ddatblygiadau pellach, byddwn yn rhannu hynny gyda chi cyn gynted â phosibl. Os byddwch yn dod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau, neu os bydd Bruton Knowles yn galw gyda chi neu'n cysylltu eto, rhowch wybod i ni.

Grŵp Gweithredu Cymunedol Peilonau Llanymddyfri Ebost: llandoverypsg@gmail.com
07584 683641